

# Harbwr Diogel 6 Calm Waters 6



Gwybodaeth  
Information

[www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



Caru Love  
**Ceredigion**

# Harbwr Diogel 6

Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn atyniadau ac adnoddau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, deniadol a dymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.



## Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser o holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser o fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio ac olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau a chyfarpar pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych neu wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
7. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohono yn yr harbyrau.
9. Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

## Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a
- Diogelwch

gellir cael y wybodaeth uchod yn: [Yr Arfordir a Phorthladdoedd](#)

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgysylltu â'r wybodaeth hon i gyd a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser.**

## Diweddariadau

### (1) Ymadael a Seiri Newydd

Ym mis Mai 2023, roedd hi'n fraint i'r Gwasanaeth Harbyrau benodi Chay Sanders fel Arweinydd Gwaith yr Harbyrau. Mae Chay wedi ymgartrefu yn ei swydd newydd yn dda iawn ac wedi mwynhau cwrdd âg amrywiaeth o Ddefnyddwyr yr Harbyrau ar draws y Sir yn fawr iawn.

Gwnaeth Mervyn Jones, Cynorthwydd Harbyrau Tymhorol adael y gwasanaeth ynghynt yn y flwyddyn. Roedd Mervyn yn aelod allweddol i'r tîm ac yn wyneb cyfarwydd i bob un o'r Harbyrau. Dymunai'r Gwasanaeth Harbyrau ddiolch i Mervyn am ei gyfraniadau yn ystod ei amser gyda'r Gwasanaeth gan ddymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Rydym yn parhau i chwilio am ddau Gynorthwydd Harbyrau Tymhorol. Rydym yn gobeithio y bydd yr aelodau newydd wedi derbyn swydd erbyn mis Ebrill 2024.

### (2) Cyfarfodydd Pwyllgor Defnyddwyr Harbyrau

Bydd Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Defnyddwyr Harbyrau yn cael ei gynnal o bell trwy Zoom ar y **21 Mawrth 2024** ar yr amserau canlynol:

17:30 Aberaeron

18:15 Cei Newydd

19:00 Aberystwyth

Er bod y Pwyllgor yn rhoi'r cyfle i drafod materion, mae llawer o ffyrdd y gall rhanddeiliaid gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau trwy gydol y flwyddyn ynghylch materion o ddydd i ddydd. Gall hyn fod yn drafodaeth wyneb yn wyneb wrth un o'r Harbyrau neu drwy Clic, canolfan gyswilt y Cyngor: [clic@ceredigion.gov.uk](mailto:clic@ceredigion.gov.uk) / 01545 570881.

### (3) Cynlluniau Rheoli Gwastraff Harbyrau (PWMPs)

Mae'n bleser gan y Gwasanaeth Harbyrau gyhoeddi bod yr MCA wedi cymeradwyo'r cynlluniau PWMP ar gyfer y tri Harbwr. Bydd y cynllun yn dod i rym ar **01 Ebrill 2024**, a bydd copïau ar gael ar ein [gwefan](#) ac yn Swyddfeydd yr Harbyrau. Bydd cyfleusterau ar gyfer gwaredu gwastraff a fydd ar gael i **ddefnyddwyr hamdden yn unig** yn cynnwys:

- 1) Gwastraff Cyffredinol
- 2) Ailgylchu cymysg (gan gynnwys metelau, papur, cardfwrdd, plastig)
- 3) Batris
- 4) Hidlwyr olew

Bydd gwastraff defnyddwyr masnachol ac unrhyw fathau eraill o wastraff na sonnir amdanynt uchod yn cael eu gwrthod a bydd disgwyl i ddefnyddwyr yr harbwr wneud eu trefniadau cyfreithiol eu hunain ar gyfer gwaredu unrhyw wastraff o'r fath.

Bydd rhagor o wybodaeth am drefniadau ar gyfer cael mynediad i'r cyfleusterau hyn yn cael ei nodi gyda deiliaid bore hamdden maes o law.

#### **(4) Polisi Newydd Rheoli Harbyrau Ceredigion**

Cymeradwywyd y Polisi Newydd Rheoli Harbyrau gan y Cabinet a daeth i rym ar 01 Mawrth 2024. Derbynnir na fydd o reidrwydd pob un o'n rhanddeiliaid yn cytuno ag elfennau o'r polisi, hoffai'r Gwasanaeth Harbyrau ddiolch i'r rheiny a gymerodd ran yn y broses ymgynghori a rhannu eu adborth / barn.

Gweler y pedwar prif newid i'r Polisi isod:

- 1) Ni fydd trosglwyddiadau angora bellach yn cael eu caniatáu mewn perthynas ag angorfa hamdden.
- 2) Ni chaniateir etifeddiaeth angorfeydd mwyach i ddefnyddwyr hamdden.
- 3) Ni fydd Trwyddedau Parcio Car bellach yn cael eu rhoi i ddeiliaid angori. Mae trefniadau sy'n ymwneud â'r trefniadau parcio ar wahân ar gyfer defnyddwyr masnachol Cei Newydd yn parhau heb eu newid.
- 4) Mae capiau rhestrau aros wedi'u dileu, gan fod rhestrau aros masnachol a hamdden o'r fath ar agor i ymgeiswyr newydd.
- 5) Ni fydd ffioedd rhestr aros sy'n daladwy bellach yn flaendal sy'n cael ei gymhwyso fel credyd i'r ffi angori sy'n ddyledus wrth ddyrannu angorfa.

Cynghorir holl ddefnyddwyr yr harbwr i ymgysylltu â'r Polisi newydd a gellir dod o hyd iddo naill ai ar y wefan, trwy'r ddolen ganlynol:

[polisi-rheoli-harbyrau-ceredigion.pdf](#)

Neu gellir gweld copïau yn Swyddfeydd yr Harbwr yn ystod oriau agor.

#### **(5) Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Aberaeron**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn falch o gadarnhau bod Gwaith Cynllun Amddiffyn yr Arfordir bellach wedi dechrau. Bydd y Gwasanaeth Harbyrau yn parhau i ddiweddarau holl ddefnyddwyr Harbwr Aberaeron yn ôl yr angen.

Mae diweddariadau misol ar y cynllun ar gael drwy wefan y Cyngor sydd i'w gweld drwy'r ddolen ganlynol: [Amddiffynfeydd yr Arfordir - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sy'n ymwneud â'r cynllun i'r canlynol:

Gwen Clements – Swyddog Ymgysylltu â'r Cyhoedd  
Ffôn: 07585 633799      Ebst: aberaeron.plo@bam.com

## (6) Gwaith a Chynnal a Chadw'r Harbyrau

Yn dilyn archwiliadaudiweddar, nodwyd bod sawl ysgol yn harbyrau Aberystwyth ac Aberaeron angen eu hatgyweirio. Mewn rhai achosion, bu'n rhaid atal mynediad at ysgolion ac mae arwyddion wedi'u gosod i ddangos pa rai nad ydynt i'w defnyddio. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer caffael i ymgysylltu â chontract i ymgymryd â'r atgyweiriadau gofynnol gyda'r bwriad o ailagor yr holl ysgolion hyn yr effeithir arnynt cyn gynted â phosibl.



*Esiamp! o arwydd sydd wedi'i osod yn Harbwr Aberaeron.*

Yn y cyfamser, ni ddylai Defnyddwyr yr Harbyrau ddefnyddio'r ysgolion hyn ac fe'u cynghorir i ddefnyddio ysgolion eraill a/neu ddefnyddio dulliau diogel eraill i gael mynediad at eu llongau/cychod.

Rydym erbyn hyn yn ymgysylltu â chontractwyr i osod arwyddion o rybudd i aelodau'r cyhoedd a defnyddwyr yr harbyrau o'r risgiau sydd ynghlwm wrth cael mynediad at harbyrau sy'n gweithio. Mae'r gwaith osod yr arwyddion hyn wedi dechrau a bydd y gwaith hwn yn parhau i mewn i'r gwanwyn.



*Enghraifft o ddefnydd arwydd yng Ngheï Newydd.*

Mae cynlluniau gwaith pellach yn cynnwys holiadur ar y pontŵn yn Aberystwyth a fydd yn cael ei gwblhau yn y gwanwyn. Mae hwn yn ychwanegol i'r arolygiadau rheolaidd ar seilwaith harbyrau megis bwi achub a Chymorth Mordwyaeth sydd wedi mynd rhagddo dros y gaeaf i sicrhau bod yr harbyrau'n parhau i fod mor ddiogel â phosibl ar gyfer yr holl ddefnyddwyr.

Dros y gaeaf, mae'r Gwasanaeth Harbyrau wedi clirio gwastraff oed wedi'i grynhoi ar ochr Harbwr Aberystwyth. Hoffwn ddiolch i Ddefnyddwyr yr Harbwr a wnaeth gynorthwyo i glirio'r gwastraff. Atgoffir Defnyddwyr yr Harbwr nad yw sbwriel sydd wedi'i grynhoi fel hyn yn dderbyniol. Rhaid gwaredu unrhyw wastraff yn unol â'r (3) Cynlluniau Rheoli Gwastraff Harbyrau a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.




*Cyn clirio*




*Ar ôl clirio*

Gwnaeth y Gwasanaeth Harbyrau hefyd glirio chwyn, dail a malurion o gwmpas yr harbwr. Bydd y Gwasanaeth Harbyrau yn cymryd camau i fynd i'r afael â baw cŵn yn Harbwr Aberystwyth. Bydd paent chwistrell a stensiliau'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau allweddol cyn tymor yr haf.



*Cyn clirio*



*Ar ôl clirio*



*Cyn clirio*



*Ar ôl clirio*

Mae craciau ar y pier yn Harbwr Cei Newydd wedi'u llenwi ac rydym yn edrych i barhau â'r gwaith hwn i'r Gwanwyn.



*Cyn y gwaith*



*Wedi'r gwaith*

## **(7) Iechyd a Diogelwch – Cyfrifoldeb Pawb**

Mae harbyrau yn amgylcheddau sy'n gweithio ac yn cael eu rhannu. Mae'r Gwasanaeth Harbyrau bob amser yn ceisio cefnogi a hwyluso defnydd diogel o'r harbwr cyn belled a bod hynny'n rhesymol ac ymarferol i wneud hynny. Mae pawb yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch ac rydym yn diolch i'n rhanddeiliaid i gyd am eu hymagwedd rhagweithiol gadarnhaol a'u hagwedd tuag at gynnal yr harbyrau fel lleoedd diogel a phleserus i'w defnyddio ac i ymweld â hwy.

Gyda hyn mewn golwg, hoffwn atgoffa Defnyddwyr yr Harbyrau na ddylai ysgolion gynnwys unrhyw atodiadau megis rhaffau, cadwynau na unrhyw ddyfeisiau/offer angora arall ar unrhyw adeg. Nid yw'r ysgolion wedi'i gosod na'i dylunio at y pwrpas hwn ac fe fyddai atodiadau o'r fath yn atal mynediad at / defnydd yr ysgolion, achosi'r posibilrwydd o gwmpo a pheryglon eraill i ddefnyddwyr yr harbyrau. Gall hefyd achosi i'r ysgol dorri. Yn ogystal, ni ddylid defnyddio ysgolion i fel modd i ddal / angora unrhyw long/gwch, hyd yn oed am gyfnod byr.

Dylid tynnu a storio unrhyw eitemau sydd wedi'u hatodi i'r ysgolion ar ystâd yr harbwr a'i waredu'n briodol. Os bydd eitemau'n parhau wedi'u hatodi wrth yr ysgolion, bydd y Gwasanaeth Harbyrau yn ceisio symud ac yn y pen draw waredu unrhyw eitemau a ganfyddir fel rhan o arolygiadau rheolaidd ar y mater hwn.

## (8) Cymorth Harbyrau

Mae cyfarfodydd cymorth wedi'u trefnu i bob Harbwr er mwyn i ddefnyddwyr yr harbyrau drafod gyda Rheolwr yr Harbwr (neu Arweinydd Gwaith yr Harbyrau) unrhyw broblemau neu faterion sy'n codi wyneb yn wyneb.

: Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfa harbwr pob lleoliad fel a ganlyn, heblaw am fis Hydref a mis Mawrth:

Aberystwyth- dydd Mawrth olaf pob mis am 14:00

Aberaeron – dydd Mercher olaf pob mis am 14:00

Cei Newydd – dydd Iau olaf pob mis am 14:00

Hysbysir defnyddwyr yr harbyrau o unrhyw newidiadau i'r amserlen.

## (9) Cod Ymddygiad Bae Ceredigion

Atgoffir holl ddefnyddwyr yr harbwr y dylent fod yn ymwybodol o God Morol Gogledd a Gorllewin Cymru ym Mae Ceredigion, a chydymffurfio â hwy. Gweler gopi o'r cod isod er gwybodaeth. Mae'r Cyngor yn dymuno atgoffa pob un o ddefnyddwyr yr harbwr, perchnogion cychod a defnyddwyr hamdden i ddilyn y Cod bob amser.

**COD MOROL GOGLEDD A GORLLEWIN CYMRU YM MAE CEREDIGION**

**CADWCH O LEIAF 100 MEDR I FFWRDD**

**Cadwch lygad am fywyd gwylt**  
Mamaliaid môr ac adar ar y môr a morloi ac adar môr ar y lan/clogwyni. Os byddwch yn aros i'w gwyltio, mwynhewch eu cwmni am uchafswm o 10 munud.

**Cadwch eich pellter**  
O leiaf 100 metr i ffwrdd o adar y môr, raffitau adar môr a mamaliaid môr. Peidiwch â mynd i mewn i ogofâu môr, neu ardaloedd lle mae morloi neu adar môr yn bresennol.

**Lleihwch gyflymder a sain**  
O fewn 300 metr ewch ymlaen ar gyflymder 'dim ôl llong' ac ar ddim mwy na 5 milltir môr.

**Byddwch yn ymwybodol**  
Os bydd ymddygiad anifail yn newid mewn ymateb i'ch presenoldeb, symudwch i ffwrdd yn dawel.

Mae'r Cod Morol yn berthnasol i bob defnyddiwr dŵr. Mae 100 metr tua hyd cae pêl-droed.

I roi gwybod am aflonyddwch i fywyd gwylt, cysylltwch â Heddlu Dyfed Powys ar 101 neu ewch i: [cardiganbaysac.org.uk/disturbance](http://cardiganbaysac.org.uk/disturbance)



## **(10) Cynorthwyon Mordwyo ac Hysbysiadau Lleol i Forwyr**

Mae pob Cynorthwydd Mordwyo (golau mordwyo, marciau a bwoi) y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol amdano yn cael eu harolygu'n fisol am unrhyw nam. Os bydd unrhyw nam, bydd Hysbysiad Lleol i Forwyr yn cael ei gyhoeddi a bydd hysbysiad dilynol yn cael ei gyhoeddi pan a phryd bydd y nam neu'r broblem wedi'i ddatrys.

Gofynnir i Ddefnyddwyr yr Harbwr roi gwybod i Dîm yr Harbwr os byddant yn ymwybodol o nam neu'n sylwi arnynt (er enghraifft marc ar goll neu olau wedi'i ddiffodd). Dylid rhoi gwybod am ddiffygion drwy'r manylion cyswllt a ddarperir yn adran 13 isod.

Rhoddir Hysbysiadau Lleol i Forwyr gan yr Awdurdod i roi gwybod i forwyr am unrhyw weithrediadau neu waith sy'n digwydd a allai effeithio ar ddiogelwch mordwyo yn y cyffiniau.

Os felly, cynghorir holl Ddefnyddwyr yr Harbyrau i nodi a chadw golwg ac i arsylwi ar Hysbysiadau Lleol i Forwyr sydd yn cael eu gosod tua allan i swyddfeydd yr harbyrau yng Nghei Newydd, Aberaeron ac Aberystwyth. Gellir hefyd weld Hysbysiadau Lleol i Forwyr ar [wefan](#) y Cyngor.

## **(11) Llinell Amser ar gyfer Ceisiadau**

Rhaid i bob cais ar gyfer 'Cadarnhad Gofynion Angori'r Haf a'r Gaeaf' gael eu dychwelyd erbyn **y dyddiad a nodir ar y ddogfen adnewyddu a ddanfonwyd**. Os bydd y cais yn cael ei gymeradwyo, bydd anfoneb yn cael ei ddanfon a ffi angori a fydd angen ei dalu'n llawn erbyn **y dyddiad a nodir i'r ar yr anfoneb**. Bydd methu a chydymffurfio âg unrhyw un o'r gofynion hyn yn arwain at ailddyrrannu'r angorfa yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

## **(12) Yswiriant**

Atgoffir defnyddwyr yr harbwr ei bod yn ofynnol iddynt gynnal yswiriant priodol a dilys bob amser ar gyfer eu cychod tra ar eu angorfa neu ar gyfleusterau storio'r gaeaf. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y ffurflenni cais Cadarnhau Gofyniad Angori'r Haf a'r Gaeaf gyda deiliaid angorfeydd yn cadarnhau y byddant yn cadw at hyn fel rhan o'r cais.

## **(13) System Adrodd Digwyddiadau**

Atgoffir defnyddwyr yr harbwr o'r gofyniad iddynt roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau, damweiniau neu gamgymeriadau agos o fewn yr Harbyrau i'r Tîm Gwasanaethau Harbwr. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau mewn ymateb.

Gallwch roi gwybod i'r Tîm Harbyrau yn Swyddfeydd yr Harbwr yn ystod eu horiau agor neu drwy'r manylion cyswllt a nodir yn rhan 13 sydd isod.

#### **(14) Tablau'r Llanw**

Gall defnyddwyr harbyrau gael mynediad at dablau'r llanw 2024 trwy [wefan Darganfod Ceredigion](#). Gellir hefyd eu casglu yn un o swyddfeydd yr harbyrau.

#### **(15) Cysylltu ac Adborth**

Sylwer: Nid yw'r blwch post gwasanaethau technegol bellach yn cael ei ddefnyddio ac nid yw'n cael ei fonitro.

Os hoffech gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau, gallwch wneud hynny drwy:

Ebost: [clic@ceredigion.gov.uk](mailto:clic@ceredigion.gov.uk)

Ffôn: 01545 570 881

Post: Cyngor Sir Ceredigion

Canolfan Rheidol

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3UE

Rydym bob amser yn croesawu ac yn annog adborth adeiladol gan randdeiliaid ac edrychwn ymlaen at glywed wrthych.

**Gyda diolch,**

**Y Tîm Harbyrau**

*Owen Morgan MNI, Rheolwr Harbyrau*

*Chay Sanders, Arweinydd Gwaith Harbyra*



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



# Harbwr Diogel 6

## Calm Waters 6



[www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

 Caru Love  
**Ceredigion**